# CAN

## YN GOSOD ALLAN

# BYRDRA EINIOES DYN

## YN Y BYD HWN,

Ac yntau yn meddwl dim am y Byd Tragwyddol, nes yn y Farn y mae efe yn codi ei olygon ac yn canfod Mab y Dyn ar gymylau y nef, yn dyfod i'w gywir farnu, yna y gwaedda ar y creigiau a'r mynyddoedd i'w guddio.

*Ar y don,—"Hen Dderby."*

O Arglwydd dod gymorth dy yspryd,
I ystyr ein bywyd bob un;
Pelydron dysgleiriawr y gwynfyd,
A 'leuo feddylfryd pob dyn,
Nes gwelo pob enaid yn eglur
Mor anmhur yw'n daear a'n gwaith,
A dyfod pob calon i ystyr
Mor fyr yw ein tymor a'n taith.
O flwyddyn i flwyddyn mae'n dirwyn,—
Edefyn ein bywyd i ben;
Ar fyrder, cyrhaeddwn y terfyn,
Pryd na cheir mynudyn îs nen.

Mae'n blwyddau fel afon yn myned
  I lawr goriwaered, gwir yw,
Ymarllwys dros geulan amserol,
  I fyd annherfynol i fyw;
A chyda'r llifeiriant diludded
  Mae'n myned holl oesau y byd,
Er cymaint cyndynrwydd dynolion,
  Rhaid myn'd gyda'r afon o hyd;
Er cymaint o fodau ymfudodd
  I fyd yr ysprydoedd i fyw,
Bucheddau pob un a amlygir,
  Mae'n gywir, yn nghoflyfr ein Duw.

Cyn hir, y rhydd Iesu grasusol,
  Y deyrnas gyfryngol i'w dad;
Gan anfon ei angel i draethu,—
  Daeth amser i fynu'n ddiwad;
Ac yna y clywir yr udgorn,
  Yn galw marwolion yn ynghyd;
Gollyngir holl oesau yn rhyddion,
  Fe'u cesglir yr awr hon i gyd;
Pryd hyn y cawn weled rhyfeddod,
  Wrth ganfod holl deulu y llawr,
Yn sefyll o gylch yr orseddfan,
  I'w barnu yn fychau a mawr.

X2051 99398

Pa galon all gynwys y syndod
  O ganfod ein barnwr yn d'od,
A miloedd o engyl o'i ddeutu,
  Gan sangu cymylau y rhod;
Gan alw ar diroedd a moroedd
  Ro'i i fynu eu lluoedd i gyd,
A geilw dorf annwn yn gryno,
  Nes uno'r byddinoedd yn nghyd;
Ac yna dechreua eu rhanu,—
  A'u barnu yn gywir a wna;
Yr annuw a yrir i benyd,
  Ond "gwynfyd i'r diwyd a'r da."

Ad-dremiwn i'n dyddiau gorphenol,
  Yn wyneb drych manwl ein Duw;
Mor geimion yw'r llwybrau a gerddwyd,—
  Ddiffrwythed ein cafwyd bob rhyw:
Rhyfeddwn amynedd ein Ceidwad,
  A'i gariad at frychau y llawr,
Yn eiriol o flwyddyn i flwyddyn,
  Gan erfyn ar fychan a mawr
Droi ato i ofyn trugaredd,
  Er cymaint y camwedd a'r cas;
Mae'n barod i dderbyn y penaf,
  A golchi'r aflanaf o'i ras.

Ystyriwn y tynu mae'n bywyd,
  Mor ddiwyd i derfyn y daith;
Ar fyrder y daw y munudyn
  I dderbyn y tâl am ei waith.
Ond cyn i ein tymor fyn'd heibio,
  O! byddwn yn effro bob awr,
I weithio tra mae y goleuni,
  A chyn cael ein tori i'r llawr;
Erfyniwn faddeuant o'n camwedd,
  Trwy rinwedd cyfryngol ein pen,
Fel caffom ddedwyddwch 'rol amser,
  Mewn mwynder didoriad. Amen.

Oferedd, gwagedd i gyd,—Yw poen
  Y pen, am dda bywyd,
  Yr elw byth ar ol y byd,
  Yw gorwedd yn y gweryd.

*Clynog.*

EBEN. FARDD.